

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	11 CHWEFROR 2021
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2020/21 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 31 Ionawr 2021 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	5
Crewyd Papurau Gwaith	2
Gwaith Maes ar y gweill	6
Cwblhawyd Gwaith Maes	3
Disgwyl Adolygiad	1
Wedi ei gau	1
Adroddiad Terfynol	10
Cyfanswm	28
Canslwyd	11

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2021. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Ionawr 2021 oedd **39.29%** - allan o'r **28** archwiliad unigol yng nghynllun 2020/21 roedd **11** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Mae 200 o ddyddiau wedi ei gynnwys yn y Cynllun Blynyddol 2020/21 ar gyfer cynorthwyo y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, sef gwasanaeth a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o arwain Cymru allan o'r pandemig drwy wella arolygiaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau a chefnogi pobl i hunan-ynysu lle bo angen. Mae eisoes dros 100 o ddyddiau wedi eu treulio yn cynorthwyo gyda'r gwasanaeth blaenoriaeth 1 yma.

3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, 'roedd yn anochel na ellid cynnal rhai archwiliadau. Penderfynwyd i addasu neu ganslo'r archwiliadau canlynol a throsglwyddo'r dyddiau ar gyfer ymgymryd â gwaith y Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu.

Archwiliad	Dyddiau	Addasiad/Canslo
Trefniadau Busnes yn sgil Pandemig Covid-19	30	Gostwng y dyddiau i 20 diwrnod
Ymateb i Faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd reolaeth fewnol	30	Gostwng y dyddiau i 10 diwrnod
Cynllun Parhad Busnes a Gwersi a Ddysgwyd	40	Canslo
Cronfeydd Ysgol	30	Canslo
Taleion Newydd (Pensiynau a Chyflogau)	12	Canslo
Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant (Plant a Chefnogi Teuluoedd)	12	Canslo
Asesiadau Statudol (AMHP) (Plant a Chefnogi Teuluoedd)	20	Canslo
Asesiadau Risg (Priffyrdd a Bwrdeistrefol)	20	Canslo
Cyllidebu a Gwariant (YGC)	10	Canslo
Storiell	5	Canslo
Unedau Busnes	12	Canslo
Cynllun Rheoli Traethau	8	Canslo
Cronfa'r Degwm	3	Canslo

3.3 Yn draddodiadol, byddai wedi bod yn arferol i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf drwy adlewyrchu ar risgiau a sialensiau y flwyddyn gyfredol, ond eleni, defnydd cyfyngedig sydd o wneud hynny wrth gynllunio ar gyfer 2021/22, ac felly bydd yn anorfod i edrych ymlaen drwy ystyried y newidiadau a ragwelir dros y 12 mis nesaf.

- 3.4 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach fyth o ystyried effaith sylweddol a chyflym pandemig Covid-19 ar y Cyngor. I'r perwyl hyn, bydd yn ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a'i adolygir a'i diweddarir yn barhaus, yn ddelfrydol ar sail chwarterol. Credaf bod hyn yn gam bositif ymlaen ac yn gyfle i'w groesawu.
- 3.5 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal yr archwiliadau uchod (para. 3.2) yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg yn ystod y cyfnod ansefydlog yma. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymgynghori â'r Pennaeth/Pennaeth Cynorthwyol/Uwch Reolwr perthnasol i drafod archwiliadau yn y drefn arferol a bydd y Rheolwr Archwilio yn cynnal trafodaeth â'r Pennaethiaid/Tîm Rheoli Adrannol ar sail reolaidd i sicrhau bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau, trefniadau amgen sydd wedi eu sefydlu neu yn cael eu datblygu ynghyd â materion cyfredol a all fod yn risg i gyflawni gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2020/21, trefniant arfaethedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Archwilio, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL						
1-CORFF-11/2021/001	Datganiadau Cyflogaeth	8.00	0.00	8.00	5.46	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-15/2021/001	Newid Hinsawdd	20.00	0.00	20.00	3.91	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-19/2021/001	Trefniadau Diogelu	10.00	0.00	10.00	7.58	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-20/2021/001	Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19	30.00	-10.00	20.00	7.08	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-20/2021/002	Ymateb i faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd reolaeth fewnol	30.00	-20.00	10.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-20/2021/003	Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd	40.00	-40.00	0.00	1.78	Wedi ei ganslo
1-CORFF-20/2021/004	Risgiau gyda'r gadwyn gyflenwi	20.00	0.00	20.00	9.61	Disgwyd Adolygiad
1-CORFF-20/2021/005	Trefniadau Gweithio o Gartref	20.00	0.00	20.00	11.09	Cwblhawyd Gwaith Maes
1-CORFF-20/2021/006	Profi, Orlhain, Diogelu - Coronafeirws	0.00	200.00	200.00	100.19	Wedi ei gynllunio
1-CPGV-02/2021	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Cenedlaethol	40.00	10.00	50.00	14.27	Gwaith Maes ar y gweill
ADDYSG						
Adnoddau						
4-DAT-X-ADD/2021/001	Grant Datblygu Disgyblion	10.00	0.00	10.00	9.96	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2021/002	Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	15.00	0.00	15.00	15.20	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2021/003	Grant Addysg Ôl-16	3.00	0.00	3.00	0.07	Crewyd Papurau Gwaith
Ysgolion						
EADDA32/2021/001	Cronfeydd Ysgol	30.00	-30.00	0.00		Wedi ei ganslo
EADDA35/2021/001	Ysgolion Cyffredinol	5.00	0.00	5.00		Wedi ei gynllunio
AMGYLCHEDD						
Gwarchod y Cyhoedd						
2ADN-GGYC-GYC/2021	Gorfodaeth Ffyrdd a Parcio	12.00	0.00	12.00	5.34	Gwaith Maes ar y gweill
CYLLID						
Ar draws yr adran						
AW-TG-12/2021/001	Diogelwch Systemau TG	30.00	0.00	30.00	10.74	Cwblhawyd Gwaith Maes

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
Cyfrifeg						
AN-ACY-08/2021/001	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2019-2020	4.00	0.00	4.00	4.27	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2021/002	Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2019-2020	4.00	0.00	4.00	2.84	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2021/003	Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2019-2020	10.00	0.00	10.00	4.27	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau						
AL-CYF-18/2021/001	Taliadau i Weithwyr Gofal	15.00	0.00	15.00	9.35	Adroddiad Terfynol
AP-PEN-11/2021/001	Taleion Newydd	12.00	-12.00	0.00	0.97	Wedi ei ganslo
Refeniw						
AB-BD-01/2021/001	Gostyngiad Treth Cyngor	10.00	0.00	10.00	10.27	Adroddiad Terfynol
AC-TR-01/2021/001	Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru	120.00	0.00	120.00	145.62	Wedi ei gau
ECONOMI A CHYMUNED						
Adfywio Cymunedol						
EADDZ-01/2021/001	Cronfa'r Degwm	3.00	-3.00	0.00	0.41	Wedi ei ganslo
Archfau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau						
EDIW-MU-03/2021/001	Storiel	6.00	-6.00	0.00		Wedi ei ganslo
EDIW-OR-01/2021/001	Amgueddfa Lloyd George	6.00	0.00	6.00	4.73	Cwblhawyd Gwaith Maes
Cefnogi Busnes						
DDAT-AD-04/2021/001	Cynllun STEM Gogledd	8.00	0.00	8.00	3.72	Gwaith Maes ar y gweill
Morwrol a Pharciau Gwledig						
EHAMT-01/2021/001	Cynllun Rheoli Traethau	10.00	-10.00	0.00		Wedi ei ganslo
Strategaeth a Datblygu						
DDAT-AD-05/2021/001	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer						
DDAT-BS-02/2021/001	Unedau Busnes	12.00	-12.00	0.00	1.46	Wedi ei ganslo
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT						
Preswyl a Dydd						
5-GOF-CART/2021/001	Ffioedd Cartrefi Preifat	30.00	0.00	30.00	1.65	Crewyd Papurau Gwaith
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD						
Plant a Theuluoedd						

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
GGWAS-P03/2021/001	Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant	12.00	-12.00	0.00	0.66	Wedi ei ganslo
GGWAS-P06/2021/001	Asesiadau Statudol (AMHP)	20.00	-20.00	0.00		Wedi ei ganslo
GGWAS-PLANT2/2021	Trefniadau "Cinio am Ddim"	12.00	0.00	12.00	11.58	Adroddiad Terfynol
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL						
Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol						
PZ01/2021/001	Asesiadau Risg	25.00	-25.00	0.00		Wedi ei ganslo
TAI AC EIDDO						
Digartrefedd a Tai Cefnogol						
GDAPR-SP01/2021	Grant Cefnogi Pobl	12.00	0.00	12.00	12.08	Adroddiad Terfynol
T-TAI-D01/2021/001	Costau Gwely a Brecwast	30.00	0.00	30.00	0.54	Wedi ei gynllunio
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD						
Ar draws yr adran						
PYMG-CON/2021/001	Cyllidebu a Gwariant	15.00	-15.00	0.00		Wedi ei ganslo